



### Eco3 - Canllaw ar gyfer Asiantwyr / Cwmnïau

1. Dylai asiantau / cwmnïau sydd â diddordeb mewn gweithio gyda Cyngor Gwynedd (CG) a Chyngor Sir Ynys Môn (CSYM) gysylltu gyda CG er mwyn cofrestru – 01286 679307 neu CSYM 01248 750057. Er mwyn sicrhau gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg fe fydd angen i chi rannu eu polisi Iaith Gymraeg ac enghraifft o lythyr / neu pamffled yr ydych yn ei ddefnyddio a gwneud yn siwr eu bod yn cynnwys eich rhif PAS 2035:2019 neu PAS 2030:2019 pan fyddwch yn cofrestru.
2. Mae CG a CSYM yn mynnu bod cwmnïau ac asiantau yn cysylltu â deiliaid tai i ddechrau dros y ffôn, e-bost, llythyr neu drwy bostio taflen. Bydd unrhyw gwynion gan ddeiliaid tai am alwadau 'di wahoddiad' yn cael eu cymryd o ddifri, byddant wedyn yn cael eu hymchwilio ac fe all arwain at y Cyngor yn gwrthod cyflwyno datganiadau.
3. Byddwch yn cyflwyno'r cais i CG neu CSYM ar ran deiliad y tŷ. Bydd angen i chi sicrhau fod deiliaid tai ddim yn cyflwyno ceisiadau eu hunain.
4. Bydd angen i chi egluro i ddeiliad y tŷ bod ECO3 yn gynllun dan arweiniad y sector preifat a bod y cyllid ar gyfer gwelliannau'n cael ei ddyfarnu gan y cwmnïau ynni. Mae angen i ddeiliaid tai fod yn ymwybodol ni fydd CG a CSYM yn gyfrifol am roi'r arian, penodi contractwyr, gosod y gwaith neu wirio ansawdd y gwaith .
5. Ni ddylech ddefnyddio unrhyw frandio CG neu CSYM na awgrymu eich bod yn gweithio ar ran y Cyngor heb gael caniatâd yn ysgrifenedig gan CG neu CSYM.
6. Bydd angen i chi adael eich manylion cyswllt gyda'r deiliaid (gan gynnwys enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost) ac egluro mai os oes unrhyw faterion yn codi, gyda chi ddylent gysylltu ac nid CG neu CSYM.
7. Drwy gymryd rhan yng nghynllun ECO3, mae CG a CSYM yn ceisio cefnogi preswylwyr ac aelwydydd sydd mewn tloidi tanwydd ac sy'n agored i niwed o fyw mewn cartref oer. Er mwyn sicrhau bod y deiliaid tai cymwys yn elwa o'r cynllun, rhaid i osodwyr argymhell y seilwaith ynni mwyaf effeithiol a fforddiadwy i'r deiliad a'r eiddo. H.y. cynnig y mesurau a fyddai'n rhoi sicrwydd grant uchaf bosib.
8. Bydd angen rhoi gwybod i ddeiliaid tai am unrhyw waith a chostau ychwanegol a fydd ddim yn cael eu hariannu drwy gynllun ECO3. Bydd angen hefyd esbonio wrthynt mai nhw fydd yn gorfod talu'r costau hyn. Rhaid rhoi gwybod i ddeiliaid tai nad ydynt yn gorfod bwrw ymlaen â'r cynllun os nad ydynt yn credu fod y gwaith gwella'n addas neu'n fforddiadwy iddynt.
9. Mae templed ffurflen gais ar gael ar wefan CG a CSYM. Defnyddiwch y templed ffurflen gais a ddarperir a rhowch logo eich cwmni a'ch rhybudd preifatrwydd yn ôl y cyfarwyddiadau.
10. Rhaid talu £150 i CG drwy drosglwyddiad BACS neu gyda siec (yn daladwy i Gyngor Gwynedd). Rhaid gwneud y taliad yr un pryd ag y cyflwynir y ffurflenni cais. Rydym angen taliad wedi'i rifo i groesgyfeirio'r taliad BACS neu siec yn ôl i'r eiddo unigol ar y ffurflen gais.
11. Lle cyflwynir sawl ffurflen Datganiad, rhaid cyflwyno taflen ategol yn nodi cyfeiriad yr eiddo, cyfeirnod a meini prawf cymhwyso.
12. Rhaid i bob gosodwr ddarparu enw, manylion cyswllt a rhif PAS 2035:2019 neu PAS 2030:2019 bob contractwr a gosodwr a fydd yn cwblhau'r gwaith i CG a CSYM.



13. Disgwylir i bob asiant a chwmni gydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Bydd angen i chi wneud gwaith yn unol â gofynion Ofgem a gweithredu'n unol ag arfer orau'r diwydiant mewn perthynas â gofal defnyddwyr a safonau ansawdd.
14. Dylai holl ddogfennau cais gael eu hanfon at; [ynni@gwynedd.llyw.cymru](mailto:ynni@gwynedd.llyw.cymru) neu [HousingStrategy@ynysmon.gov.uk](mailto:HousingStrategy@ynysmon.gov.uk)



### Eco3 - Guidance for Agents / Contractors

1. Agents / companies interested in working with Gwynedd Council (GC) and the Isle of Anglesey County Council (IoACC) should contact the GC to register – 01286 679307 or IoACC 01248 750057. In order to ensure delivery of service through the medium of Welsh you will need to share your Welsh Language policy and an example of a letter / or pamphlet that you are using and make sure that they include your PAS 2035:2019 and PAS 2030:2019 number when you register.
2. GC and IoACC requires companies and agents to contact householders in the first instance by telephone, email, letter or by posting a leaflet. Any complaints from householders about unwanted or cold calls will be taken seriously, complaints will subsequently investigated and may result in the Council refusing to issue statements.
3. You must submit the application to GC or IoACC on behalf of the householder. You will need to ensure that householders do not submit applications themselves.
4. You will need to explain to the householder that ECO3 is a private sector led scheme and funding for improvements is awarded by the energy companies. Householders need to be aware that the GC or IoACC will not be responsible for donating the funds, appointing contractors, letting the work or checking the quality of the work.
5. You must not use any GC or IoACC branding or suggest that you work on behalf of the Council without the written consent of GC or IoACC.
6. You will need to leave your contact details with the occupants (including name, address, telephone number and email address) and explain that if any issues arise, they should contact you and not the Council.
7. By participating in the ECO3 scheme, GC and IoACC aims to support fuel poor and vulnerable residents and households living in a cold home. To ensure that eligible householders benefit from the scheme, installers must recommend the most effective and affordable energy infrastructure to the occupier and the property. I.e. propose the measures that would give maximum grant security.
8. Householders will need to be informed of any additional work and costs that will not be funded through the ECO3 scheme. You will also need to explain to them that they will have to pay these costs. Householders are not obliged to proceed with the scheme if they do not believe the improvement works are suitable or affordable for them.
9. An application form template is available on the GC and IoACC website. Use the application form template provided and insert your company logo and privacy notice.
10. Payment of £150 to GC by BACS transfer or by check (made payable to Gwynedd Council). Payment must be made at the same time as the application forms are submitted. We require a numbered payment to cross reference the BACS payment or check, back to the individual property on the application form.
11. Where multiple application forms are being submitted, an accompanying spreadsheet specifying the property address, reference number and eligibility criteria must also be submitted.
12. All installers must provide GC or IoACC with the name, contact details and PAS 2035:2019 or PAS 2030:2019 number of each contractor and installers who undertake the work.



13. All agents and companies are expected to comply with the General Data Protection Regulation (GDPR). You will need to carry out work in accordance with Ofgem's requirements and act in accordance with industry best practice in relation to consumer care and quality standards.
14. All application documents should be sent to; [ynnig@gwynedd.llyw.cymru](mailto:ynni@gwynedd.llyw.cymru) or [HousingStrategy@ynysmon.gov.uk](mailto:HousingStrategy@ynysmon.gov.uk)